L&W SEFYDLIAD DYSGU A GWAITH
LEARNING AND WORK INSTITUTE




# ADRODDIAD EFFAITH
## 2022-2023

learningandwork.wales

# CYFLWYNIAD

**Mae'n gyfnod anodd i lawer. Mae argyfwng costau byw yn dilyn degawd o dwf isel mewn cynhyrchiant a'r economi wedi taro galetaf ar y rhai ar incwm isel ac wedi gadael llawer o wasanaethau cyhoeddus mewn trafferthion. Drwyddi draw, mae cyfraddau cyflogaeth yn parhau'n gymharol uchel, ond y Deyrnas Unedig yw'r unig wlad yn y G7 i weld anweithgaredd economaidd uwch nawr nag oedd cyn y pandemig ac mae gormod o bobl mewn gwaith cyflog isel neu ansicr.**

Mae ein gwaith wedi tynnu sylw i'r materion hyn ac wedi ysgogi syniadau am newid. Dangosodd ein Rhwydwaith Gwaith Gwell effaith y cynnydd mawr disgwyliedig mewn prisiau ynni ar bobl incwm isel yn Llundain a chyflwyno'r achos dros gymorth y llywodraeth a ddaeth drwy'r Warant Prisiau Ynni.

Fe wnaethom ddadlau y dylai'r Deyrnas Unedig anelu at y gyfradd gyflogaeth uchaf yn y G7, 1.2 miliwn ychwanegol o bobl mewn gwaith. Dangosodd ein dadansoddiad fod un filiwn o weithwyr ar goll o'r gweithlu o gymharu â thueddiadau cyn y pandemig, gyda rhywedd a gwasanaethau dosbarth yn bennaf gyfrifol am hyn. Fe wnaeth hynny helpu i lywio ymateb y Llywodraeth i godi anweithgaredd economaidd.

Dangosodd ein hymchwil fod y Deyrnas Unedig yn parhau i danfuddsoddi mewn sgiliau. Yn Lloegr bydd buddsoddiad y llywodraeth £1 biliwn yn is yn 2025 nag oedd yn 2010. Fe wnaethom ddangos fod cyflogwyr yn buddsoddi 28% yn llai mewn hyfforddiant fesul gweithiwr nag yn 2005. Fe wnaethom alw am gynyddu buddsoddiad cyhoeddus mewn dysgu i hybu twf a chyfle a chredyd treth sgiliau newydd a diwygio'r ardoll prentisiaeth i annog cyflogwyr i fuddsoddi.

Eto gwyddom fod oedolion yn parhau i fod â diddordeb mewn dysgu. Dangosodd ein Harolwg Cyfranogiad Oedolion mewn Dysgu adferiad parhaus yn y gyfran o oedolion yn cymryd rhan mewn dysgu a yrrwyd gan ddysgu hunan-gyfeiriedig ac ar-lein ond gydag anghydraddoldeb amlwg iawn rhwng grwpiau ac ardaloedd. Dathlodd ein gwobrau Ysbrydoli! yng Nghymru a Gŵyl Ddysgu yn Lloegr lwyddiannau oedolion sy'n ddysgwyr. Ac roeddem wrth ein bodd i roi gwobr cydnabyddiaeth arbennig i addysgwyr oedolion yn Wcráin sy'n parhau i gefnogi pobl a'u gwlad.

Rhoddwn sylw i ystod eang o feysydd polisi ac mae cynifer o ffyrdd y gall dysgu a gwaith wneud gwahaniaeth – i gyfle unigol, llwyddiant busnes, twf economaidd, iechyd, llesiant a chynhwysiant a mwy. Ond mae cyllid ar gyfer y gwaith hwn yn dynnach drwy'r amser.

Mae hynny'n ein gwneud hyd yn oed yn fwy balch o'n gwaith a'r gwahaniaeth y mae'n parhau i'w wneud. Rydym yn ddiolchgar am waith caled ac ymroddiad ein tîm rhagorol sydd wedi wynebu'r un pwysau costau byw â phawb arall ac am arbenigedd ac ymroddiad ein hymddiriedolwyr.

Yn y flwyddyn i ddod byddwn yn cynyddu ein hymdrechion eto i gyflwyno'r achos dros ddysgu a gwaith, adeiladu'r sylfaen tystiolaeth, llunio polisi a phrofi ffyrdd newydd o weithio.

**Jeremy Moore, Cadeirydd y Bwrdd, a Stephen Evans, Prif Weithredwr**

# EIN CENHADAETH


**Ein gweledigaeth yw cymdeithas lewyrchus a theg lle mae dysgu a gwaith yn rhoi cyfleoedd i bawb wireddu eu potensial ac uchelgais drwy gydol bywyd.**

Wrth i ni adfer o'r pandemig, rydym yn wynebu heriau newydd a brys i'n cymdeithas ac economi. Ond mae cyfleoedd i adeiladu dyfodol cryfach. Dylem anelu i'r Deyrnas Unedig ddal i fyny gyda gwledydd eraill tebyg a hefyd i arwain y byd yn nhermau dysgu a gwaith. Dyma'r amser i gydweithio i greu economi twf dan arweiniad sgiliau gyda gweithlu iach, swyddi da a dysgu a chyfleoedd gydol oes.

Rydym eisiau gwneud gwahaniaeth drwy ymchwilio'r hyn sy'n gweithio a chyflwyno'r achos dros fuddsoddiad, dathlu'r gorau mewn dysgu, helpu i wella polisi drwy dystiolaeth a phrofi dulliau newydd o gyflwyno cefnogaeth.



# YSTADEGAU ALLWEDDOL




**1 mewn 5 oedolyn**
**yn dweud eu bod wrthi'n dysgu.**

Mae 1 mewn 5 arall wedi gwneud peth dysgu o fewn y 3 blynedd ddiwethaf. Nid yw 3 oedolyn mewn 10 wedi cymryd rhan mewn dysgu ers iddynt adael addysg lawn-amser.

2005
28%
2023

**uddsoddiad cyflogwr mewn hyfforddiant wedi gostwng 28% ers 2005,**

gyda graddedigion 3x yn fwy tebygol i gael hyfforddiant yn y gwaith na rhai heb radd

**Y Deyrnas Unedig yw'r unig wladwriaeth yn y G7 i fod â chyfradd cyflogaeth is na chyn y pandemig.**

**3,000,000**
**o bobl allan o waith yn dweud eu bod eisiau swydd,**

ond nid yw cefnogaeth ar gael yn eang: dim ond 1 mewn 10 o bobl anabl a hŷn allan o waith sy'n cael help i ganfod gwaith.

**Gwahaniaethau llwm mewn dosbarth a rhywedd yn y grŵp economaidd anweithgar.**

Mae swyddi ar gyflog gwell lle mae'r rhan fwyaf o bell o'r gweithwyr yn wrywod yn cyfrif am tua 1 mewn 3 o bobl a ymddeolodd yn gynnar. Ar y llaw arall, roedd pobl o swyddi ar gyflog is, lle mae'r rhan fwyaf o weithwyr yn draddodiadol yn fenywod, yn fwy tebygol o roi'r gorau i'w gwaith am resymau iechyd.



**3 mewn 5**
**cyflogwr yn dweud eu bod angen sgiliau gwyrdd nawr neu yn y dyfodol.**

Mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn dweud ei bod yn bwysig gweithio i sefydliad sy'n ymroddedig i drin newid hinsawdd.




**Gradd Gymdeithasol yn ddangosydd allweddol o gyfranogiad mewn dysgu.**

Mae'r Radd Gymdeithasol uchaf (AB) yn sylweddol fwy tebyg o ddweud eu bod yn ddysgwyr cyfredol neu ddiweddar o gymharu â graddau cymdeithasol eraill.

# GWNEUD GWAHANIAETH


## Mae gan ein gwaith ffocws ar chwe thema:




Gall **dysgu gydol oes** helpu gyda gwaith, gyrfaoedd – a newid gyrfa – dinasyddiaeth weithgar, cysylltiadau cymunedol ac iechyd a llesiant. Mae ein ffocws ar gyflwyno'r achos dros ddysgu gydol oes a'r newid polisi ac ymarfer sydd eu hangen i gyflawni hyn.



Dylai **cyflogaeth a nawdd cymdeithasol** sicrhau fod pawb sydd eisiau gweithio yn cael y cyfle a bod pobl yn cael cymorth pan maent ei angen. Mae ein ffocws ar ymchwilio'r newid yn natur gwaith a defnyddio tystiolaeth i wella cyfleoedd ar gyfer y rhai sy'n aml yn cael eu hallgau o neu dan anfantais yn y farchnad lafur.



Mae **sgiliau hanfodol a bywyd** tebyg i lythrennedd, rhifedd, digidol a dinasyddiaeth yn byrth i fywyd, gwaith a chynhwysiant cymdeithasol. Mae ein ffocws ar ddatblygu ffyrdd newydd i ymgysylltu â phobl a chyflwyno dysgu sy'n diwallu anghenion pobl a chymunedau.



Gall **gwaith da a chynnydd** helpu pobl i sicrhau incwm da a chwmpas ar gyfer datblygu, a maent yn bwysig ar gyfer iechyd a llesiant. Mae ein ffocws ar yr hyn sy'n gweithio i greu gwell gwaith a chefnogi cynnydd.



Gall **prentisiaethau ac addysg dechnegol** helpu pobl i wella eu rhagolygon gyrfa a chyflogwyr i ddiwallu eu hanghenion sgiliau. Mae ein ffocws ar sicrhau eu bod o ansawdd uchel ac yn hygyrch, ac yn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb presennol.



**Cyfiawnder cymdeithasol a chynhwysiant** oherwydd y dylai pawb gael y cyfle i fynd mor bell ag yr aiff eu talent a'u hymdrechion â nhw. Mae ein ffocws ar well gefnogaeth i'r rhai sy'n rhy aml yn colli allan.

# LLUNIO POLISI

Yn 2022-23 buom yn dyfnhau dealltwriaeth o'r hyn sydd ei angen ar gyfer **adfywiad ac adferiad cymdeithasol ac economaidd** yn dilyn y pandemig. Mae uchafbwyntiau yr hyn y gwnaethom ei gyflawni yn cynnwys:

- Dylanwadu ar syniadau ar sut i gynyddu cyfranogiad yn y farchnad lafur drwy weithio traws-bleidiol a chyfrannu at adolygiad y Llywodraeth o anweithgaredd economaidd.
- Helpu i roi anweithgaredd economaidd ar yr agenda polisi lleol a llunio trafodaethau ar sgiliau a chymorth chyflogadwyedd drwy ein perthnasoedd strategol ac ymchwil.
- Cefnogi deg ardal gyda modelu sgiliau i lywio cynlluniau buddsoddi lleol Multiply a dwy ardal gyda galwadau am dystiolaeth ar anweithgaredd economaidd i lywio comisiynu Cronfa Ffyniant Gyffrediin y Deyrnas Unedig.
- Sicrhau ymrwymiad i'r Siarter Dysgu Gydol Oes yng Nghymru a Chwricwlwm Dinasyddion ar gyfer Cymru fel rhan o raglen y Gweinidog Addysg ar gyfer 'cenedl ail gyfle'
- Rhoi tystiolaeth i bwyllgorau yn cynnwys Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig Senedd Cymru a Phwyllgor Addysg Tŷ'r Arglwyddi.

Yn ychwanegol, fe wnaethom ymateb i **ymchwiliadau ac ymgynghoriadau Llywodraeth**, a chyflwyno tystiolaeth i a rhoi cyflwyniadau i Grwpiau Seneddol Ollbleidiol yn cynnwys ar Gyflogaeth Ieuenctid ac Addysg Oedolion.



# EIN BLWYDDYN MEWN RHIFAU

TUA

**900**

DARN O SYLW YN Y CYFRYNGAU

ar gyfer ein hymchwil a dadansoddiad unigryw, gyda'n sylwebaeth ar ystadegau'r farchnad lafur yn cael ei gynnwys mewn newyddion cenedlaethol. Cawsom sylw sylweddol yn y cyfryngau cenedlaethol ar gyfer ein ymchwil polisi yn y Daily Telegraph, The Times, The Mirror, The Financial Times, The Economist, BBC News Channel a GB News.

THE TIMES BBC The Economist

Cafodd ein gwaith hefyd sylw yng ngwasg y sector yn cynnwys FE Week, FE News, Education Journal, People Management a Local Government Chronicle. Cawsom sylw nodedig i ymgyrchoedd penodol yn cynnwys ein hadroddiad 'Missing workers' ar anweithgaredd economaidd a'n cyhoeddiad ar fuddsoddiad cyflogwyr mewn sgiliau.

TUA

**190,000**

**edrychiad tudalen ar ein gwefan mewn 12 mis** gyda'r brig o amgylch cyhoeddi adroddiadau yn cynnwys Arolwg Cyfranogiad Oedolion mewn Dysgu a digwyddiadau, yn cynnwys Maximising Multiply, seremoni wobrwyo'r Ŵyl Dysgu a'r Gynhadledd Tai, Dysgu a Gwaith.



**18,400**

**dilynydd @LearnWorkUK**

a 56,422 ymweliad proffil @LearnWorkCymru

**14,700**

**edrychiad gyda 84,000 munud o bytiau ffilm wedi'i gweld.** Cafodd Dysgu a Gwaith Cymru 190.5k edrychiad gyda 548,000 munud o bytiau ffilm wedi'u gweld.

**3,739** edrychiad tudalen

**Cynnydd o 790 dilynydd mewn 8 mis.**

3,739 edrychiad tudalen a 1,554 ymwelydd unigryw.

# DOD Â PHOBL YNGHYD

Ym mis Tachwedd, Andy Street, Maer y West Midlands ac Alison McGovern AS, Gweinidog Cysgodol Gwaith a Phensiynau oedd y prif siaradwyr yn ein Confensiwn Cyflogaeth a Sgiliau a gynhaliwyd wyneb yn wyneb am y tro cyntaf ers 2019 a chroesawu 200 cynrychiolydd. Roedd ffocws ein cynhadledd flynyddol Saesneg, Mathemateg ac ESOL, a gyflwynwyd ar-lein i 300 o fynychwyr, ar lythrennedd oedolion a chyflwyno Muliply. Fe wnaethom hefyd gynnal sesiynau bwrdd crwn preifat a gweminar gyda 250 yn bresennol i gefnogi awdurdodau lleol i helpu datblygu eu cynlluniau buddsoddi Multiply. Fe wnaethom gynnal Diwrnod Datblygu ESOL yng Nghymru i ystyried canfyddiadau ein hadolygiad ESOL ar gyfer Llywodraeth Cymru gyda dros 70 yn bresennol. Yn olaf, fe wnaeth ein Cynhadledd Tai, Dysgu a Gwaith, a gynhaliwyd ar y cyd gyda Cymunedau am Waith, ddenu tua 200 o gynrychiolwyr i ymchwilio twf economaidd cynhwysol, datganoli polisi a chyllid a phontio i economi sero-net.

Rhwng cynadleddau, fe wnaethom gynnal gweminarau a digwyddiadau byrrach i nodi cyhoeddi adroddiadau a digwyddiadau allanol. Fe wnaeth ein tîm uwch rannu llwyfannau mewn digwyddiadau a drefnwyd gan sefydliadau eraill.



# YSBRYDOLI OEDOLION I DDYSGU

Mae'r Ŵyl Ddysgu yn Lloegr a'r Wythnos Addysg Oedolion yng Nghymru wedi dathlu'r goreuon mewn addysg oedolion ac ysbrydoli pobl i ddysgu am 30 mlynedd, gan ysbrydoli dathliadau tebyg o amgylch y byd.

Roedd hon yn flwyddyn o wneud pethau am y tro cyntaf wrth i ni ddechrau ymestyn cefnogaeth ar gyfer gwobrau rhanbarthol addysg oedolion. Buom yn gweithio gyda'r Tîm yn City Hall i gyflwyno Gwobrau Addysg Oedolion cyntaf Maer Llundain, gyda dathliad ym mis Hydref ar gyfer oedolion sy'n ddysgwyr a'u cefnogwyr. Ym mis Ionawr, ynghyd ag Awdurdod Cyfunol y West Midlands, fe wnaethom agor enwebiadau am y Gwobrau Addysg Oedolion West Midlands cyntaf erioed.

Yn Lloegr cefnogwyd yr Ŵyl Dysgu gan yr Adran Addysg (DfE), NOCN, City Lit, y Sefydliad Addysg a Hyfforddiant a'r Grŵp Sgiliau ac Addysg. Cyhoeddwyd enwau yr enillwyr gwobrau ym mis Gorffennaf a chawsant eu dethol o bron 200 enwebiad. Cafodd ffrwd byw y seremoni wobrwyo ei gweld mwy na 1,500 o weithiau a chafodd ein hashnod Twitter 420,000 argraffiad. Cafodd straeon yr enillwyr wobrau sylw yng nghyhoeddiadau'r sector.

Roedd yr Wythnos Dysgu Gydol Oes ym mis Tachwedd yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau yn cynnwys dathliad o'r celfyddydau a dysgu, a 'Diwrnod Trosglwyddo Cyflogwyr' dan arweiniad Busnes yn y Gymuned.

Festival of Learning

20 YEARS

Edrychiad ffrwd byw seremoni wobrwyo

**1,500**

Argraffiad x (Twitter)

**420,000**

# 100+

partner yn cynnwys;

BT | The Open University | Wales TUC Cymru

# 15,000

o bobl yn cymryd rhan yn yr ymgyrch

#InspireCymru2022

Gwobrau Ysbrydoli! Addysg Oedolion a Thiwtoriaid

# 414,000

Argraffiad X (Twitter)



Yng Nghymru, bu'r **Wythnos Addysg Oedolion** yn gweithio gyda dros 100 partner i ddarparu cymysgedd o 500 o gyrsiau ar-lein, digwyddiadau a gweithgareddau yn y gymuned a blasu, a **chymerodd dros 15,000 o bobl ran yn yr ymgyrch**. Buom yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r ymgyrch ac i gyfeirio pobl at gyngor ac arweiniad. Cafodd ein **llwyfan ar-lein** yn cynnal rhestri cyrsiau, digwyddiadau arbennig, straeon dysgwyr a dolenni i wybodaeth bellach, cyngor a chymorth **dros 55,131 edrychiad tudalen** ac fe gafodd ein **cynnwys dros 8.5 miliwn argraffiad ar Twitter**.

Cynhaliwyd y gwobrau Ysbrydoli! Addysg Oedolion ym mis Hydref a gwobrau Ysbrydoli! Tiwtoriaid ym mis Mawrth gyda chyfraniadau gan **Jeremy Miles, Gweinidog Addysg** a **John Griffitrhs AS**. Daeth **180 o westeion** i'r gwobrau a chafwyd **20 darn o sylw yn y wasg** gyda **414k argraffiad** ar ein hashnod Twitter #InspireCymru 2022.



# DATBLYGU DATRYSIADAU



## Gwerthfawrogi dysgu gydol oes

Yn ei 26ain mlynedd, dangosodd ein harolwg blynyddol ar gyfranogiad oedolion mewn dysgu, ar ôl degawd o ostyngiad yn y 2010au, fod cyfranogiad mewn dysgu yn parhau i fod ar y lefelau a welwyd ddiwethaf ar ddechrau'r 2000au: dywedodd tua dau mewn pump o oedolion (42%) eu bod wedi cymryd rhan mewn dysgu yn y tair blynedd ddiwethaf. Mae'r arolwg hefyd yn dangos newid yn nifer yr oedolion sy'n dysgu'n annibynnol ac anffurfiol, gyda diddordeb wedi ei gynnau yn ystod y pandemig ac yn helpu i lenwi'r bwlch wrth i ddysgu ffurfiol ac a ariannwyd yn gyhoeddus ostwng dros y degawd blaenorol. Ym mis Ionawr fe wnaethom lansio partneriaeth strategol sawl-blwyddyn gyda Ufi VocTech Trust, gan anelu i ddefnyddio grym technoleg alwedigaethol i gynyddu cyfranogiad oedolion mewn dysgu. Mae ein gwaith eang mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru wedi arwain at broffil uwch a mwy o fynediad i gyfleoedd addysg oedolion.




## Gwella llythrennedd, rhifedd a sgiliau bywyd

I gefnogi darparwyr a chomisiynwyr lleol i gyflwyno Multiply (rhaglen newydd rhifedd oedolion), fe wnaethom lansio Rhwydwaith Ymarfer Effeithlon Multiply, gan ddenu dros 250 aelod. Mapiwyd anghenion sgiliau hanfodol i lefel leol ar draws Lloegr, a chyhoeddwyd ymchwil a gomisiynwyd gan Awdurdod Llundain Fwyaf (GLA) ar ymarfer effeithlon mewn Saesneg a mathemateg ar gyfer oedolion. Ar y cyd gyda HOLEX, fe wnaethom gynnull y Gynghrair Sgiliau Bywyd i ddadlau am fwy o ffocws a gweithredu ar sgiliau hanfodol oedolion mewn polisi ac ymarfer sgiliau. Gan weithio gyda Phrifysgol De Cymru, fe wnaethom adolygu polisi ESOL ar gyfer Llywodraeth Cymru, gan arwain at set glir o argymhellion a diwrnod datblygu i'w symud ymlaen. Fe wnaethom barhau i dyfu ein Rhwydwaith ESOL yng Nghymru drwy gydlynu dysgu proffesiynol a helpu ymarferwyr i ddod ynghyd gyda gwneuthurwyr polisi i ddeall yr heriau sy'n wynebu'r sector.

## Prentisiaethau ac addysg dechnegol ansawdd uchel, hygyrch

Fel canlyniad i'n gwaith gyda JP Morgan ar gyn-brentisiaethau, fe wnaeth darparwyr sefydlu rhaglenni newydd ac addasu darpariaeth bresennol i ddiwallu anghenion pobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau wrth weithio. Fe wnaethom barhau i weithio gyda'r Rhwydwaith Datblygu Strategol i gyflwyno rhaglen cymorth cyflogwyr Lefel T Llywodraeth y DU. Cyflwynwyd ein hymchwil a gynhaliwyd ar ran St Martin's Group i ymchwilio profiadau, deilliannau a chyrchfannau prentisiaid sy'n cwblhau eu rhaglen o gymharu â'r rhai nad ydynt, mewn digwyddiad ar gyfer arweinwyr diwydiant. Arweiniodd hyn at fwy o weithio partneriaeth. Fe wnaethom lywio ymestyn Cynlluniau Gwella Sgiliau Lleol ymhellach drwy ein partneriaeth gyda IFF i werthuso cynllun peilot Cronfa Datblygu Sbardun Sgiliau yr Adran Addysg yn Lloegr.





## Gwella sgiliau a chyfleoedd cyflogaeth

Dengys ein hymchwil mai dim ond un ym mhob deg o bobl 50-64 oed ac anabl allan o waith sydd eisiau gweithio sy'n cael cymorth y Llywodraeth i wneud hynny, ac fe wnaethom fwydo hyn i adolygiad anweithgaredd economaidd y Llywodraeth. Buom yn gweithio gyda Cyngor Barking a Dagenham i ddylunio rhaglen cyflogaeth â chymorth newydd, sy'n helpu pobl gydag anawsterau dysgu ac anghenion iechyd meddwl ar draws y fwrdeistref i ennill sgiliau hanfodol ar gyfer gwaith. Fe wnaethom hefyd gyflwyno mapio taith cyflogaeth a sgiliau a dadansoddi anghenion defnyddwyr ar gyfer Hyb Integreiddio Canol Llundain, fydd yn llywio cymorth cyflogaeth ar gyfer ffoaduriaid a phobl anabl ar draws nifer o fwrdeistrefi. Rydym wedi parhau i weithio gyda landlordiaid cymdeithasol sy'n darparu cymorth cyflogaeth, cyhoeddi ein hadroddiad Adeiladu Cyfleoedd gyda'r Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth ac a gefnogwyd gan Cymunedau am Waith, y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol a Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau Hyd Braich. Fe wnaethom gyfrannu at drafodaethau ar Sero Net a swyddi ar gyfer y dyfodol mewn nifer o ffyrdd, yn cynnwys drwy ein hymchwil ar gyfer WorldSkills UK ar bobl ifanc a sgiliau gwyrdd technegol. Cyflwynwyd canfyddiadau ail don y gwerthusiad o gynllun Restart i'r Adran Gwaith a Phensiynau, fydd yn llywio dylunio cymorth cyflogaeth yn y dyfodol. Dechreuodd mwy na 50 o bobl mewn swyddi neu ddiwydiannau sy'n newydd iddynt ar ôl derbyn cymorth o gynlluniau peilot fel rhan o'n rhaglen flaenllaw, Dyfodol Newydd, yng Nghymru, Caeredin, Belfast a Dyffryn Tees.

## Helpu pobl ar gyflog isel i sicrhau cynnydd ac adeiladu sgiliau

Cynyddodd aelodaeth ein Rhwydwaith Gwaith Gwell – cynllun seiliedig ar bolisi ac ymarfer yn Llundain ac ar draws y Deyrnas Unedig – i dros 800. Cyhoeddwyd adroddiad yn edrych ar effeithiau'r argyfwng costau byw ar weithwyr cyflog isel a chynhaliwyd seminar gyda'r GLA. Buom yn gweithio gyda'r TUC i gynnal gweminar ar lais a chynrychiolaeth gweithwyr yn y gweithle a chydweithio gyda'r GLA i gynnull sesiwn bwrdd crwn preifat yn City Hall gyda busnesau a rhanddeiliaid eraill i ymchwilio dulliau effeithiol i gefnogi buddsoddiad cyflogwyr mewn sgiliau. Fe wnaethom barhau i weithio mewn partneriaeth gydag Ymddiriedolaeth Peabody i gynhyrchu eu mynegai sy'n olrhain cyflogau a chyflogaeth ar gyfer Llundeinwyr ar dâl isel.





## Gwella deilliannau ar gyfer pobl ifanc

Fel cyd-gadeiryddion y Grŵp Cyflogaeth Ieuenctid, fe wnaethom barhau i ddod â rhanddeiliaid ynghyd i wella cefnogaeth i bobl ifanc. Gan adeiladu ar ein partneriaeth gyda The Prince's Trust, fe wnaethom roi sylw i anweithgaredd economaidd ymysg pobl ifanc a chost uchel anawsterau iechyd meddwl sy'n eu hatal rhag cyfleoedd. Cafodd yr ymchwil yma ei defnyddio'n eang gan eraill a chyfeiriwyd ati yn y Senedd. Mae ein gwerthusiadau o Gronfa Gweithlu'r Dyfodol, hyfforddiaethau galwedigaethol a chynllun peilot cyflogaeth â chymorth Llywodraeth Cymru wedi arwain at gymorth mwy targedig a chynhwysol i helpu pobl ifanc bontio'r bwlch i gyflogaeth. Cynlluniwyd fframwaith ar gyfer cynllun peilot Llwybr Cynnydd Academaidd yr Adran Addysg yn Llundain, sy'n awr yn cael ei dreialu ar draws Lloegr i gefnogi pobl ifanc i ddysgu academaidd.

## Gwaith rhyngwladol

Rydym yn weithgar yn y Gymdeithas Ewropeaidd ar gyfer Addysg Oedolion a'r Rhwydwaith Sgiliau Sylfaenol Ewropeaidd (ESBN) ac yn aelodau o Gymdeithas Ryngwladol Addysg Oedolion. Fe wnaethom rannu ein gwaith ar sgrinio sgiliau hanfodol gyda dros 60 o randdeiliaid Ewropeaidd yng nghynhadledd flynyddol EBSN yn Vienna. Ym mhrosiect RegALE ('Regional Capacity for Adult Learning and Education'), fe wnaethom drefnu ymweliad astudio deuddydd i City Lit, gyda ffocws ar eiriolaeth ac ymgyrchoedd, a gweminar ar fesur a gwerthuso effaith mewn addysg oedolion. Fe wnaethom weithredu fel corff trefnu sector ar gyfer addysg oedolion ar gyfer Taith, rhaglen cyfnewid rhyngwladol Llywodraeth Cymru, i bartneriaid Ewropeaidd yn cynnwys sesiynau neilltuol gyda phartneriaid rhyngwladol ar sut i gysylltu gyda sefydliadau yng Nghymru.

# EIN CYLLIDWYR

Aontas
Barking & Dagenham College
Capita Business Services Ltd
Catch 22
Central London Forward
Centre for Ageing Better
Colegau Cymru
Comisiwn Ewropeaidd
Department for Education
Department for Work and Pensions
Fusion21 Foundation Limited
Greater London Authority
Guy's and St Thomas' Charity
Llywodraeth Cymru
NESTA
Nuffield Foundation
North of Tyne Combined Authority
Phoenix Group
South East Strategic Partnership for Migration
Shaw Trust Limited
The Prince's Trust
The St Martin's Group
Trades Union Congress
Trust for London
Ufi VocTech Trust
West Midlands Combined Authority
WorldSkills UK
Youth Futures Foundation Limited

SEFYDLIAD **DYSGU** A **GWAITH**
**LEARNING** AND **WORK** INSTITUTE

**learningandwork.wales**

**enquiries@learningandwork.org.uk**

@LearnWorkUK @LearnWorkCymru @festival_learn

**Gwybodaeth gyson. Cymryd rhan. Ymgysylltu.**
Ymaelodwch i ddod yn
gefnogwr y Sefydliad Dysgu a Gwaith

**Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith Cenedlaethol**
**3rd floor, Arnhem House, 31 Waterloo Way, Leicester, Leicestershire, LE1 6LP**
**Rhif cofrestru cwmni 2603322 | Rhif cofrestru elusen 1002775**

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu, copïo na throsglwyddo'r cyhoeddiad hwn heb ganiatâd ysgrifenedig y cyhoeddwyr, heblaw yn unol â darpariaethau Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988, neu dan delerau unrhyw drwydded yn caniatau copïo cyfyngedig a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint.